

## Negeseuon



1. Dydd Sul : Gorffennaf 10fed  
10.00 o'r gloch y bore

Bore da, Deian,

**Dim mwy** o ddatrys dirgelion  
a dal drwgweithredwyr  
i fi am dipyn.

**Dw i wedi dod**  
ar wyliau  
i Ganolfan *Dwy Dderwen*,  
Canolfan Gweithgareddau Antur  
am dipyn o hoe.

**Mae rhywbeth 'mlân** yma  
trwy'r amser.

**Dych chi'n gallu**  
cerdded, loncian, rhedeg neu seiclo  
dringo, abseilio, rhwyfo neu nofio."

Ar ôl cyrraedd y safle  
bore'ma  
**es i'n syth** i'r swyddfa.  
Mae Sioned,  
y ferch sy'n gweithio  
yn y swyddfa  
yn neis iawn  
ac yn barod iawn i helpu.

"Bore da,"  
**medde fi.**

1. Sunday : July 10th  
10.00 o' clock a.m.

Good morning, Deian,

**No more** solving mysteries  
and catching criminals  
for me for a while.

**I have come**  
on holidays  
to the *Twin Oaks Centre*,  
an Adventure Activity Centre  
for a bit of a break.

**There's something on** here  
all the time.

**You can**  
walk, jogg, run or cycle  
climb, abseil, row or swim."

After arriving at the location  
this morning

**I went straight** to the office.  
Sioned,  
the girl who works  
in the office  
is very nice  
and very ready to help.

"Good morning,"  
**I said.**

“Dilwyn Cooper dw i.  
**Dw i’n dod** o Abertawe.  
**Dw i’n aros** yn ystafell 102.”

“**Croeso** i ganolfan *Dwy Dderwen*”  
medde hi.  
“Sioned **dw i**.  
Sioned Roberts.  
**Dyma** raglen yr wythnos  
i chi.  
Fel dych chi’n gallu gweld  
**mae rhywbeth ’mlân** yma  
trwy’r amser.  
Dych chi’n gallu  
cerdded, loncian, rhedeg neu seiclo  
dringo, abseilio, rhwyfo neu nofio.”

“**Dw i’n edrych ’mlân**  
at wneud  
tipyn o bopeth,”  
medde fi.

“Ardderchog,”  
medde Sioned.  
“Nawr’te.  
**Mae** ystafell 102,  
drws nesa’ i’r *sauna*.  
Dyma gynllun o’r ganolfan i chi.  
I gyrraedd ystafell 102  
**cerwch i’r chwith** yn fan hyn,  
wedyn **trowch i’r dde**.  
**Cerwch lan** fan hyn  
a **lawr** y coridor yma.  
**Cerwch syth ’mlân** ac wedyn,  
trowch i’r chwith.  
**Mae** ystafell 102  
ar y dde.  
Dyma’ch allwedd.”

“Diolch yn fawr,”  
medde fi.

“Croeso” medde hi.  
“**Mwynhewch** eich gwyliau yma.”

“I’m Dilwyn Cooper.  
**I come** from Swansea.  
**I’m staying** in room 102.”

“**Welcome** to the *Twin Oaks* centre”  
said she.  
“**I’m** Sioned.  
Sioned Roberts.  
**Here’s** the week’s programme  
for you.  
As you can see  
**there’s something on** here  
all the time.  
You can  
walk, jog, run or cycle  
climb, abseil, row or swim.”

“**I’m looking forward**  
to doing  
a bit of everything”  
said I.

“Excellent,”  
said Sioned.  
“Now then.  
Room 102 **is**,  
next door to the *sauna*.  
Here’s a plan of the centre for you.  
To reach room 102  
**go left** here,  
then **turn right**.  
**Go up** here  
and **down** this corridor.  
**Go straight on** and then,  
turn left.  
Room 102 **is**  
on the right.  
Here’s your key.”

“Thank you very much”  
said I.

“You’re welcome” said she  
“**Enjoy** your holiday here.”

Am berson swynol!.

Hwyl am y tro,

Dilwyn

2. Dydd Sul : Gorffennaf 10fed  
2.00 y prynhawn.

Pnawn da, Deian,

Erbyn hyn

**dw i wedi**

bwyta cinio

ac wedi cwrdd â

rhai o'r bobl

sy'n aros yma

wythnos'ma.

**Bues i'n siarad** dros ginio gydag

Alis Angharad, actores o Abergele

ac Arthur Annwyl, esgob wedi ymddeol.

**Maen nhw'n edrych**

yn bobl

neis iawn.

Mae'r bwyd yma

yn ansparadigaethus.

Digonedd o ddewis, hefyd.

Ond – Iechydwrriaeth -

**bues i bron â chael** damwain

yn y tŷ bwyta heddiw -

ar ôl i Alis estyn am yr halen

a bwrw

powlenaid o gawl berw

dros y bwrdd

i fy nghyfeiriad i.

“**Byddwch yn ofalus**, Alis!”

medde Esgob Annwyl.

“Wps. **Mae'n ddrwg 'da fi.**”

medde Alis.

“Popeth yn iawn,”

medde fi.

What a charming person!

Bye for now,

Dilwyn

2. Sunday : July 10th  
2.00 p.m..

Good afternoon, Deian,

By now

**I have**

eaten lunch

and met

some of the people

who are staying here

this week.

**I spoke** over lunch with

Alis Angharad, an actress from Abergele

and Arthur Annwyl, a retired bishop.

**They look**

like

very nice people.

The food here

is damn fine.

Plenty of choice, as well.

But – Heavens Above -

**I almost had** an accident

in the restaurant today -

after Alis reached out for the salt

and hit

a bowl of boiling soup

over the table

in my direction.

“**Be careful**, Alis!”

said Bishop Annwyl.

“Oops. **I'm sorry.**”

said Alis.

“That's O.K.,”

said I.

**“Dw i ddim wedi**  
llosgi dim byd.”

Mae twmpath gyda ni heno  
am wyth o’r gloch.

**Dw i ddim wedi bod**  
mewn twmpath  
ers amser hir.

Gyda llaw,  
**weles i** rywbeth rhyfedd iawn  
allan o ffenest fy ystafell wely  
jest nawr –  
rhywun mewn gwisg gorila  
yn cerdded trwy’r coed  
yn cario sach.

Hwyl eto,

Dilwyn

**“I haven’t**  
burnt anything.”

We’ve got a barn dance tonight  
at eight o’ clock

**I haven’t been**  
in a barn dance  
for a very long time.

By the way,  
**I saw** something very strange  
out of my bedroom window  
just now –  
somebody in a gorilla suit  
walking through the woods  
carrying a sack.

Bye again,

Dilwyn